Cerrig stori

Trosolwg

Mae deunyddiau naturiol yn adnoddau unigryw ar gyfer archwilio lleferydd ac iaith. Mae cerrig mân yn bethau i'w cyffwrdd sy'n gallu annog plant i archwilio adrodd straeon.



Gweithgareddau

Modelwch sut mae defnyddio'r cerrig stori. Mae plentyn yn dewis carreg o'r bag ac yn ei gosod yn y canol fel bod pawb yn gallu ei gweld. Ailadroddwch yr ymadrodd, 'Un tro, roedd yna…' ac ychwanegwch yr eitem gyntaf. Gofynnwch gwestiynau syml i egluro'r cyfeiriad y mae'r plentyn yn dewis mynd â'r stori iddo, 'A yw'n ddraig dda?' ac ati. Mae pob plentyn yn cymryd ei dro i ddewis carreg ac yn ychwanegu at y stori gyffredinol. Ailadroddwch y stori ac ychwanegwch at y dilyniant. Gorffennwch drwy ddweud 'a buon nhw fyw'n hapus byth wedyn'.

Offer

- Bag a gaiff ei gau â llinyn, y mae'n bosibl teimlo'r hyn sydd ynddo
- Arwyneb cyffyrddus i eistedd arno
- Cerrig stori – defnyddiwch gerrig mân, crwn. Tynnwch neu paentiwch luniau o gymeriadau, eitemau a lleoliadau addas arnynt a defnyddiwch lud PVA i'w farneisio.

Cwestiynau allweddol

Sut mae pob stori dda'n dechrau?

Un tro, roedd yna…'

'Ac yna?'...

'Beth ddigwyddodd nesaf?'...

Deilliannau dysgu

- Llythrennedd – deall bod gan stori ddechrau, rhan ganol a diwedd
- Chwarae – datblygu'r dychymyg a datblygu hyder i adrodd straeon

Symud y dysgu yn ei flaen

Anogwch bawb i fod yn ddwl, gadael i'w dychymyg fynd yn wyllt, a chael hwyl diniwed. Gallai fod yna flaidd neu greadur estron dan y bont ellyllon y mae angen ei achub. Dywedwch 'ac yna…' i gyflwyno pob elfen newydd. Pwyntiwch at y cerrig i greu dilyniant y stori, ac anogwch y plant i ailadrodd y stori gyda chi.